

William Salesbury, ?1520–?1584

Ysgolhaig a phrif gyfieithydd y Testament Newydd Cymraeg cyntaf

Hanai William Salesbury o deulu breiniol, ac roedd yn ail fab i Ffwg ap Robert ap Tomas Salbri Hen, ac Annes, merch Wiliam ap Gruffydd ap Robin o Gochwillan. Ganed ef yn Llansannan, ond treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn y Plas Isaf, Llanrwst. Addysgwyd ef yn Rhydychen – yn Broadgate Hall, o bosib – ac yno y cofleidiodd Brotestaniaeth. Priododd â Catrin Llwyd, merch Robert ap Rhys a chwaer Dr Elis Prys, Plas Iolyn, Pentrefoelas.

Yr oedd dau brif nod amlwg i'w waith, sef yr awydd i roi'r Beibl i'r Cymry, ac ysfa i gyflwyno dysg a gwybodaeth iddynt yn eu hiaith eu hunain. Dywedodd yn y rhagymadrodd i'w lyfr *Oll Synnwyr Pen Kembero Ygyd* (1547), sef casgliad o ddiarhebion, 'Pererindotwch yn droednoeth, at ras y Brenhin ae Gyncor i ddeisyf cael cennat y cael yr yscrythur lan yn ych iaith.'

Yr oedd yn ddyn anarferol o alluog a oedd wedi ei danio gan ddau fudiad pwysig yn Ewrop ar y pryd. Y cyntaf oedd y Dadeni Dysg a'r ail oedd y Diwygiad Protestannaidd. Sylweddolodd hefyd bwysigrwydd y dechnoleg newydd ar y pryd, sef y wasg argraffu a ddatblygwyd gan Johann Gutenberg ym Mainz, yr Almaen, tua 1450. Yr oedd yn hyddysg mewn Hebraeg, Groeg, Lladin, Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg, a chanddo wybodaeth helaeth mewn llawer maes. Ei gyhoeddiad cyntaf oedd geiriadur Saesneg a Chymraeg, sef *A Dictionary in English and Welshe* (1547). Nid hwn oedd y llyfr cyntaf yn y Gymraeg oherwydd cyhoeddwyd *Yn y lyvyr hwenn* gan Syr John Prys, Aberhonddu, ryw flwyddyn ynghynt. Ei gynnig cyntaf ar gyfieithu rhannau o'r Beibl i'r Gymraeg oedd *Kynniver llith a bann* (1551), a gynhwysai lithoedd gwasanaeth Cymun yr Eglwys.

Yn y flwyddyn 1563, yn ystod teyrnasiad Elisabeth, pasiwyd deddf yn gorchymyn cyfieithu'r Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin i'r Gymraeg, a gwahoddwyd Salesbury i gynorthwyo Richard Davies, Esgob Tyddewi, gyda'r cyfieithu. Gorffennwyd y Llyfr Gweddi a'r

Testament Newydd erbyn 1567 a chyhoeddwyd y ddau destun y flwyddyn honno. Salesbury a wnaeth y rhan fwyaf o'r gwaith. Ymddengys mai ef a gyfieithodd y Llyfr Gweddi a'r Testament Newydd, ar wahân i Lyfr y Datguddiad a gyfieithwyd gan Thomas Huet, cantor Tyddewi, ac 1 Timotheus, Hebraid, Iago ac 1 a 2 Pedr a gyfieithwyd gan Richard Davies. Croeso llugoer a gafodd cyfieithiadau Salesbury a hynny oherwydd eu bod yn anodd eu darllen. Mynnai ddefnyddio ffurfiau Lladin ar eiriau Cymraeg a darddai o'r iaith honno, e.e. 'Deo' am 'Duw', 'popul' am 'pobl' ac 'eccleis' am 'eglwys'. Yn ogystal â hynny ni fyddai'n treiglo'r geiriau hyn gan y credai y byddai hynny'n llygru eu huchel dras Ladinaid. Disgwyliai i ddarllenwyr Gymreigio'r orgraff wrth ddarllen. Bu rhaid iddo hefyd fathu geiriau newydd i'r iaith fel 'brawdgarwch' a 'cyfryngwr', gan nad oedd rhai addas yn bodoli. Er y brychau amlwg, roedd y cyfieithiadau'n orchestol ac yn ganllaw gadarn i William Morgan yn ddiweddarach.

Trosodd Salesbury lyfrau o ieithoedd eraill i'r Gymraeg hefyd; er enghraifft, ym 1552 cyfieithodd draethawd ar rethreg o'r Lladin. Ond ei gyfraniad mawr oedd cyfieithu'r Testament Newydd yn gynnar yn hanes cyfieithu yn Ewrop, gan osod sylfeini cadarn i lenyddiaeth Gymraeg. Bu farw'r Gernyweg cyn cael Beibl yn yr iaith honno ac ni chyhoeddwyd Beibl llawn yn yr Wyddeleg hyd 1685. Yn y ddeunawfed ganrif y cafwyd Beibl Manaweg, ac ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y cafwyd cyfieithiad Gaeleg.

Oni bai am gyfraniad Salesbury a phobl debyg iddo, ni fyddai'r iaith wedi goroesi. Y mae cofeb iddo wedi ei gosod ar wal y tu mewn i Eglwys Crwst, Llanrwst.